***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 8

# SEILIAU RHEOLI YSTAD

## RHAN 2

## CYMERADWYO CYNLLUNIAU AILDDATBLYGU AT DDIBENION SAIL B

*Amodau yn ymwneud â chymeradwyo*

15 (1) Caniateir cymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau a chaniateir mynegi bod y gymeradwyaeth i ddod i ben ar ôl cyfnod penodedig.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, yn dilyn cais gan y landlord neu fel arall, amrywio cymeradwyaeth er mwyn—

(a) ychwanegu, dileu neu amrywio amodau y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt, neu

(b) ymestyn neu gyfyngu'r cyfnod y daw'r gymeradwyaeth i ben ar ei ddiwedd.